Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar Ionawr 22 yn Festri Tabor.

Presennol : Islwyn Jones, Peter Tandy, Fred Jones, David Jones, y Cynghorydd Rowland Rees-Evans a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Huw Griffith a Lyn Davies.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Tachwedd, ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi :

1 Yn dilyn ymholiadau pellach, adroddwyd nad oedd unrhyw ardal arall yn gweld angen yswirio diffibriliwr.

2 Yswirio eiddo'r Cyngor h.y. y celfi stryd. Cafwyd gwybodaeth gan y cwmni yswiriant am bolisi cynhwysfawr, fyddai'n cynnwys llawer mwy o eiddo ac offer nag sy'n perthyn i'r Cyngor. Penderfynnwyd na fyddai cost polisi o'r fath i'w gyfiawnhau yn achos yr ychydig eiddo dan sylw.

3 Cafwyd cadarnhad gan Peter Tandy fod y drws gwydr wedi ei ail-osod ar yr hysbysfwrdd yng nghanol y pentre.

4 Y cyfrif banc. Ar ôl siarad â rhywun yn y banc a sicrhau'r Cyngor nad oedd dull y banc o ddelio gyda chyfrifon ar-lein yn peri unrhyw boblemau, penderfynnwyd gadael y mater fel y mae am y tro.

5 Dŵr ar y ffordd o'r Hen Ficerdy hyd Penybont. Adroddwyd bod gweithwyr y Cyngor Sir wedi bod yn clirio'r dail o'r draeniau ar y rhiw, ond oherwydd y gwynt a'r glaw parhaol fe aeth y sefyllfa yn ôl yr un fath yn fuan iawn.

6 Cais y Cylch Meithrin am gyfraniad tuag at gost torri coeden. Er na chafwyd gwybodaeth am ymateb o unrhyw gyfeiriad arall, penderfynnwyd cyfrannu £100, tuag at y gost.

Gohebiaeth

Derbyniwyd gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu Rhagfyr a Ionawr; am gyfarfod o Bwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru; am gyfarfod ynglyn â thrawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl yn ardal Hywel Dda; am ddigwyddiad ymgysylltu ynglyn â Drafft Bill Llywodraeth Leol, a hysbyseb am Gyfarfod Cymunedol Grwp Cydweithredol Gofal Iechyd yn y Canolbarth. Hefyd gofynnwyd am farn neu sylwadau ar Ymgynghoriad Trawsnewid Busnes, ac Asesiad strategol Trosedd ac Anrhefn.

Derbyniwyd llythr oddi wrth Llywodraeth Cymru yn dweud nad oes ganddynt gofnod yn dangos bod gan y Cyngor gyfeiriad e-bost a/neu wefan. Atebwyd trwy e-bost.,

Daeth llythr oddi wrth y Cyngor Sir yn gofyn a fyddai lle addas yn ardal y Cyngor i gynnal Eisteddfod Genedlaethol 2020. Cytunwyd nad oedd unman addas yn ardal y Cyngor.

Materion Ariannol

Derbyniwyd £1,625 oddi wrth EDF energy, a derbyniwyd y grant o £450 oddi wrth y Cyngor Sir ar gyfer datblygu gwefan. Cyfrif banc ar 30 Rhagfyr yn dangos £2098.75 a chyfrif rhif 2 yn £8026.48.
Derbyniwyd apêl am arian oddi wrth Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru, Ambiwlans Awyr Cymru, CFfI Ceredigion, a Cyngor ar Bopeth Ceredigion. Rhoddwyd y rhain ar un ochr, i'w hystyried pan ddaw'n amser dosbarthu rhoddion.
Trefniadau Praesept 2016/17. Penderfynnwyd ei gadw yr un fath â llynedd, sef £2600, a'r clerc i lanw a dychwelyd y ffurflen.
Awdurdodwyd talu £600, grant y fynwent, i'r C Ff I; a £42.71 i Scottish Power a £200 cyflog y clerc.

Unrhyw fater arall

Adroddwyd bod y cais cynllunio ar gyfer mast i dderbyn signal ffôn symudol ar dir ger lôn Penciog, wedi cael ei basio gan y Cyngor Sir.
Codwyd y mater o gyflwr gwael yr hewl rhwng Brynchwyth a Rhosgoch ac hefyd rhwng Nantcwtta Fach a Glangors, a gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Adran Ffyrdd yn Aberaeron.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Chwefror 18